**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-782
Ein cyf/Our ref KS/03374/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@llyw.cymru

16 Hydref 2017

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Medi ynghylch Deiseb P-05-782: Adeiladu Ffordd Osgoi Cas-gwent i Gael Gwared ar y Tagfeydd oddi ar yr M48 i'r A48.

Rydym yn cydweithio â Highways England i ddatblygu cynllun cydlynol trawsffiniol ar gyfer diddymu'r tollau. Gan fod nifer uchel o loriau HGV a cherbydau eraill yn defnyddio'r llwybr hwn i osgoi'r tollau, byddwn yn ystyried yr effaith debygol ar y model traffig ar gyfer Gas-gwent gan gynnwys yr A48.

Rwy'n gallu cadarnhau hefyd ein bod wedi cynnal ymgynghoriad ac astudiaeth ar ansawdd aer Cas-gwent. O ganlyniad i'r ymgynghoriad nodwyd pum opsiwn posibl, a ffordd osgoi oedd un ohonynt. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith lawn diddymu'r tollau a chodi tai newydd yn yr ardal.

Yn sgil canfyddiadau'r asesiad ansawdd aer, byddwn yn parhau i gydweithio â'r cyngor lleol, datblygwyr ac â rhanddeiliaid er mwyn gwella ansawdd yr aer a gwneud yr A48 yng Nghas-gwent a'i chyffiniau yn fwy diogel.

Yn gywir,

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.